CYMORTH CYNLLUNIO

Cynhadledd y DU 2010

'Cymorth Cynllunio –
Ymgysylltu â Chymunedau'

Dydd Iau **Ebrill 29ain** a bore Gwener **Ebrill 30ain 2010**
Park Inn, Canol Dinas Caerdydd

Planning Aid | Planning Aid for London | planning aid for Scotland | Cymorth Cynllunio Cymru Planning Aid Wales

CYMORTH CYNLLUNIO

Cynhadledd y DU 2010

'Cymorth Cynllunio – Ymgysylltu â Chymunedau'

Cynhelir Cynhadledd Genedlaethol Cymorth Cynllunio eleni yng Nghaerdydd. Bydd yn dod â staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr cymorth cynllunio at ei gilydd ynghyd â chynrychiolwyr o grwpiau cymunedol a gwirfoddol ar draws y DU gyfan.

Ffocws y gynhadledd fydd sut mae gwasanaethau cynllunio'r DU eisoes yn ymgysylltu â chymunedau a sut y gallwn wneud yn well yn y dyfodol. Bydd amgylchedd gyfeillgar, hamddenol yn annog cynadleddwyr i gyfnewid syniadau, i ysbrydoli ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Bydd rhaglen fywiog o weithdai, grwpiau trafod a theithiau maes yn arddangos ymarfer gorau mewn ymgysylltu â chymunedau wrth gynllunio ac mentrau cymunedol calonogol fydd yn elwa o gefnogaeth cymorth cynllunio. Bydd cyfleoedd hefyd i drafod a datblygu atebion i'r heriau cyffredin a wynebir pan yn gweithio gyda chynllunwyr a chymunedau.

Thema ail ddiwrnod y gynhadledd bydd cryfhau'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau cymorth gwahanol yn y DU a trafod meysydd lle mae synergedd yn bosibl rhwng gweithgareddau cymorth cynllunio ac ynni'r gymuned. Ym mha feysydd mae'r potensial gorau a sut dylid eu blaenoriaethu? Sut gall gwasanaethau'r DU gefnogi ei gilydd i ddatblygu'r potensial?

Mae'r gynhadledd yn gyfle amhrisiadwy i'r rhai sy'n ymwneud â chymorth cynllunio ledled y DU i ddod at ei gilydd i gael eu hysbrydoli ac i ddatblygu syniadau newydd i gefnogi cymunedau.

Cyfleoedd arddangos
Arddangoswyr corfforaethol: £500
Arddangoswyr y sector wirfoddol: £200
Am fanylion ffoniwch 01286 882 834

CYMORTH CYNLLUNIO
Cynhadledd y DU 2010

Rhaglen

Nos Fercher Ebrill, 28ain, 6.30yh

Gwahoddir y cynadleddwyr i **noson gwis** wedi ei threfnu gan Gymorth Cynllunio Cymru a Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru yng ngwesty'r Park Inn.

Cost y cwis (fydd yn daladwy ar y noson) fydd £4 i bob cystadleuydd (£3 i fyfyrwyr) gyda'r elw'n mynd at Gymorth Cynllunio Cymru a Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru. Nid yw gwybodaeth gynllunio arbenigol yn angenrheidiol!

Rydym yn croesawu cystadleuwyr yn unigol neu fel tîm i'r cwis. Rydym yn edrych am dimau o bump neu lai i gystadlu. Bydd yn iawn os ydych am gystadlu fel unigolyn oherwydd byddwn yn eich rhoi mewn tîm ar y noson.

Ceir manylion a ffurflen gofrestru ar http://www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering/quiznight

Dydd Iau Ebrill 29ain

9.30 yb	Cofrestru, te a choffi
10.00 yb	Sesiwn lawn gychwynnol:
	Cyflwyniad y Cadeirydd, *Kelvin MacDonald, Adran Economi'r Tir, Prifysgol Caergrawnt*
	Anerchiad y Gweinidog, *Jane Davidson, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai, Llywodraeth Cynulliad Cymru*
10.30 yb	Sesiynau gweithdy 1 a 2
1.00 yp	Cinio
2.00 yp	Sesiynau gweithdy 3 a 4
5.30 yp	Gorffen
7.30 yp	Cinio'r gynhadledd
9.00 yp	Twmpath dawns

Dydd Gwener Ebrill 30ain

9.00 yb	Cofrestru, te a choffi
9.30 yb	Gweithdai i ddatblygu meysydd synergedd
11.00 yb	Gweithdai i flaenoriaethu meysydd gwaith cymorth cynllunio yn y dyfodol
12.00 yp	Sesiwn lawn i nodi a chytuno ar feysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith cymorth cynllunio yn y dyfodol
12.30 yp	Sesiwn lawn i gloi a sylwadau terfynol o'r Gadair
1.00 yp	Cinio a ffarwelio

Pigion o'r gweithdai

Rhoi llais i gymunedau mewn Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd,
dan arweiniad Sue Webber, South West Planning Aid

Canlyniadau cyntaf o brosiect Cyfryngu mewn Cynllunio,
dan arweiniad Kay Powell, National Planning Forum for England

Datblygiad effaith isel,
dan arweiniad Paul Wimbush, Lammas Eco Village

Cynlluniau ynni adnewyddol cymunedol,
dan arweiniad Grenville Ham, The Green Valleys

Cefnogi Sipsiwn a Theithwyr,
dan arweiniad Ian Horsburgh, Planning Aid Wales

Ceir y rhaglen ddiweddaraf a gwybodaeth bellach am y gynhadledd ar www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/conference

CYMORTH CYNLLUNIO

Cynhadledd y DU 2010

Ffurflen archebu

(Llungopïwch y ffurflen hon ar gyfer cynadleddwyr ychwanegol)

Manylion cynadleddwr

Enw _____

Teitl swydd _____

Sefydliad _____

Ebost _____

Ffôn _____

Cyfeiriad _____

Cyfeiriad anfoneb _____

(os yn wahanol i'r uchod) _____

_____

Archebu lle yn y gynhadledd

☐ Ffî llawn y gynhadledd: £180

☐ Gradd ostyngedig ar gyfer staff a gwirfoddolwyr cymorth cynllunio: £110

Mae'r ffî yn cynnwys cinio a lluniaeth ar ddyddiau'r gynhadledd yn ogystal â chinio nos ar y nos Iau. Ni chynhwysir llety dros nos.

Cysylltwch â ni ynglŷn â gostyngiadau dewisol ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol.

Llety

Mae rhai o wirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru wedi cytuno i roi llety am ddim i gynadleddwyr. Os hoffech gael eich ystyried am hyn, byddwch cystal â nodi'ch dewis isod.

☐ Hoffwn aros yng nghartref gwirfoddolwr Cymorth Cynllunio Cymru ar nos Iau.
(Os oes lle ar gael.)

☐ Hoffwn aros yn nghartref gwrifoddolwr Cymorth Cynllunio Cymru ar nos Fercher a nos Iau.
(Os oes lle ar gael.)

☐ Anfonwch restr o westai lleol.

Gofynion arbennig

Nodwch isod os oes gennych unrhyw ofynion deiet neu ofynion eraill arbennig.

_____

_____

Amodau archebu
Mae'n rhaid talu o flaen llaw. Bydd canslo o fewn 30 diwrnod i'r gynhadledd yn golygu talu'r swm cyflawn. Cyn 30 diwrnod, codir 50% o'r gost. Gellir enwebu eilyddion am ddim.

Diogelu Data
Os nad ydych am gael mwy o wybodaeth trwy'r post ynghylch ein digwyddiadau ticiwch yma. ☐

Anfonwch eich ffurflen archebu a'ch siec yn daladwy i Cymorth Cynllunio Cymru at:
Cymorth Cynllunio Cymru, 174 Heol yr Eglwys Newydd, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 3NB.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Kay Sharman ar 02920 625 009 neu kay@cymorthcynlluniocymru.org.uk.